PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 28 Gorffennaf 11, 2024 50c.

## Cymanfa CWM Durban, De Affrica

*Cynhaliwyd cynhadledd CWM byd-eang ganol mis Mehefin eleni yn Ne Affrica. Dyma adroddiad byr gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol fu'n bresennol yno.*

Does dim modd arfer gormodiaith wrth geisio cyfleu'r profiad rhyfeddol o fynychu'r gymanfa uchod yn ddiweddar. Digon dweud yn awr, mai braint fawr yn wir oedd bod yno gydag Eleri Mai Thomas, Tomos Edwards a Dylan Rhys fel cynrychiolwyr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ynghyd â Jill-Hailey Harries fel cyn aelod o fwrdd CWM, a theimlo'n union syth wedi cyrraedd Durban, hawddgarwch serchog teulu cyfan CWM yn cau amdanom a'n cofleidio. Nodwedd fyddai'n parhau'n amlwg gydol y Gymanfa â hynny'n briodol iawn yn adleisio thema'r wythnos, a sail holl weithgaredd CWM dros y tymor presennol, "Codi i fywyd: gyda'n gilydd mewn trawsnewidiad."

Profodd y weithred o ddod ynghyd at ein gilydd yn ffynhonnell o egni bywiol ynddi ei hunan, yn adlewyrchiad bychan o Bentecost, gyda thafodau, dieithr a chyfarwydd, o Amsterdam i Auckland, o Gymru i Gorea, o Johannesburg i Jamaica yn siarad gyda balchder a llawenydd am eu heglwysi, eu bywyd a'u gwaith, eu llwyddiant a'u rhwystredigaeth, eu menter a'u hofn. Gofid calon, a thestun gweddi inni'n wir oedd y ffaith i Eglwys Bresbyteraidd Myanmar fethu a bod yn bresennol gyda ni â hithau, yn sgil sefyllfa wleidyddol enbyd y wlad, wedi eu hamddifadu o bob cyswllt â'r byd tu fas. Lluniwyd llythyr yn datgan ein safiad gyda'n brodyr a'n chwiorydd yno gan erfyn am ddiwedd ar bob gormes a thrais sy'n amddifadu holl bobl y wlad o fywyd ar ei orau.

Roedd yr ymateb hwn yn fynegiant o natur y gweithgareddau a godai o raglen sylweddol y dydd, yr addoliad dyddiol, y cyflwyniadau a'r astudiaethau Beiblaidd a'r trafodaethau a ddeilliodd ohonynt. Deliwyd â materion dwys a difrifol mewn modd gonest a didwyll gyda phenderfyniad di-ildio i fynd i'r afael â'r ffactorau hynny sy'n bygwth bywyd y ddynoliaeth a'r greadigaeth yn wir.

Pwy'n well nag ynyswyr y Môr Tawel i sôn am fygythion y llanw uchel, amlach a chynyddol, merched India am le, urddas a

*parhad ar dudalen 2*



*Cynrychiolwyr yr Undeb yng nghymanfa CWM 2024: Eleri Mair Thomas, Dyfrig Rees, Tomos Edwards, Jill-Hailey Harries a Dylan Rhys Parry*

## Diolch i organydd am flynyddoedd o wasanaeth



Ar fore Sul 9 Mehefin, yng nghapel y Rock, Pwllyglaw, Cwmafan, rhoddwyd teyrnged o ddiolch i Mr Lyndon John am ei wasanaeth fel organydd yr eglwys am drigain mlynedd.

'Nôl yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf bu nifer o bobl ifanc yn cymryd eu tro i chwarae'r organ, ond o un i un, fe aethant eu gwahanol ffyrdd gan adael Lyndon yn dal i chwarae yno.

Pan gyrhaeddodd Lyndon ei arddegau cynnar penderfynodd roi'r gorau i wersi piano, gwell oedd ganddo gicio pêl gyda'i gyfoedion ifanc. Ond heb yn wybod i Lyndon, cysylltodd ei fam â Mr Stanley Jones, codwr canu'r eglwys, a gofyn am ei help. Llwyddodd Mr Jones ddwyn perswâd ar Lyndon i chwarae un emyn bob Sul. Cymerodd Mr Jones ef o dan ei adain a dyna ddechrau gyrfa Lyndon wrth yr organ yng nghapel y Rock.

Yn y flwyddyn 2007, pan ymddeolodd trysorydd yr eglwys, Lyndon gymrodd ei le, ac ers 2009 ef hefyd yw gofalwr y capel.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd tysteb i Lyndon gan ysgrifennydd yr eglwys.

Yn ei ymateb, dywedodd Lyndon mai braint a phleser yw dod i'r capel bob Sul, ac mor falch fyddai ei ddiweddar briod, June ar yr achlysur hapus hwn a diolchodd i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth bob amser.

**Margaret Rees**

# Cymanfa CWM Durban, De Affrica – parhad

hawliau merched, pobl dduon De Affrig am addysg fel llwybr ymwared o dlodi. Hyn ymhlith pethau eraill a drafodwyd, ie, yn Ne Affrig wedi'n hannog gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dr Jooseop Keum, i gofio'n gyson leoliad y gynhadledd. 'Mae cyd-destun Affrica, sydd wedi ei greithio gan hanes o wladychu, gormes, a'r frwydr dros annibyniaeth, wedi creu math unigryw o ddiwinyddiaeth sy'n atseinio gyda'r ysfa gyfunol am ryddid ac urddas,' meddai. 'Mae De Affrica, yn enwedig, wedi bod yn arweinydd yn y Ddiwinyddiaeth Ddu o Ryddhad.'

Dengys rhai astudiaethau, erbyn y flwyddyn 2050, y bydd Affrica yn unig yn gartref i fwy na 40% o Gristnogion yn y byd ac y mae CWM yng nghanol y symudiad i sicrhau bod Cristnogaeth Ewro-ganolog, fu mor gaeth i'r meddylfryd Imperialaidd yn dod yn Gristnogaeth fyd-eang fydd yn ymhyfrydu ym mywyd pawb a phopeth yn y byd.

Does dim unrhyw amheuaeth yn ein plith ninnau fu yng nghwmni brodyr a chwiorydd i ni o bedwar ban y byd bo'r symudiad hwnnw eisoes wedi cerdded ymhell. Ffaith letchwith, o bosibl, i ninnau fu'n gymaint dylanwad ym myd ffydd ac eglwys dros y canrifoedd. Mater, er hynny, y gallwn fod yn siŵr o gymorth CWM i ddygymod ag ef yn llwyddiannus.

*Dyfrig Rees*

# Noson o fawl Tabernacl Pencader

Cymer di fy llais yn lân,
am fy Mrenin boed fy nghân;
cymer fy ngwefusau i,
llanw hwynt â'th eiriau di.

Mewn noson arbennig ar nos Wener 3 Mai, seiniau gorfoleddus yr organ newydd oedd i'w clywed o fewn muriau capel Tabernacl, Pencader. Trefnwyd noson o fawl i gysegru'r offeryn newydd a chafwyd gwledd o gerddoriaeth a hynny yn nwylo medrus Martin Griffiths, Llandysul. Estynnwyd croeso i bawb gan y Parchedig Chris Bolton a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Ann Phillips a Siân Thomas. Braf oedd canu emynau i gyfeiliant yr organ a thrwy arweiniad hawddgar Chris, ymunodd pawb i ganu moliant pedwar llais. Braint fawr aelodau'r capel oedd trefnu'r noson hon er mwyn talu ein gwerthfawrogiad i un o'n haelodau ffyddlon, Julia Davies, am ei chyfraniad hael tuag at y gost o brynu'r organ newydd. Clywyd datganiadau peraidd gan Martin Griffiths a diolch iddo am ei barodrwydd i roi o'i amser i'n diddanu. Pinacl y noson heb os oedd clywed ei ddatganiad ysbrydoledig o anthem fawr Eric Jones, 'Tangnefeddwyr'.

Gwnaed casgliad teilwng iawn tuag at Ymchwil Tiwmor yr Ymennydd a fydd o gymorth i'r elusen wrth iddynt barhau â'r gwaith arbennig sy'n cael ei wneud. I gloi'r noson ymlwybrodd pawb i'r festri i fwynhau te a chacen a baratowyd gan wragedd y capel. Diolch i bawb am ymuno â ni er mwyn creu cofnod hanesyddol a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer i ddod a hir oes i'r canu mawl i gyfeiliant yr organ.




# Y ffrwd fach

## Yr eglwys yn gweithio mewn cytgord

Fel byddwch chi'n gwybod, rwyf fi wrth fy modd yn chwarae'r organ, ac rwy wedi cael tipyn o gyfle i wneud hynny yn ystod y misoedd diwethaf. With i mi baratoi am y datganiadau diweddar, fe fues i'n meddwl, fel sawl tro o'r blaen, mor debyg yw strwythur yr organ a'r eglwys. Mae'r organ yn cynnwys cannoedd o bibau o bob maint a siâp, a dwsinau o stopiau, sydd i gyd yn cynhyrchu gwahanol seiniau, ond o'u defnyddio'n effeithiol gyda'i gilydd, maen nhw'n gallu creu cyfanwaith sy'n llawer mwy pwerus na'r nodau a'r lleisiau unigol.

Mae hynny'n sicr yn debyg i'r eglwys, lle mae unigolion o bob cefndir a chymeriad yn dod at ei gilydd i weithredu ar y cyd, a thrwy hynny, gyflawni llawer mwy nag y gallen nhw'n unigol.

> Mae'r eglwys yr un fath a'r corff dynol – mae gwahanol rannau i'r corff ...
> Mae pob un ohonon ni'n rhan o'r corff ac mae arnon ni angen pawb arall.
>
> (Rhufeiniaid 12)



Peth arall sy'n debyg yw'r angen am ymrwymiad os yw'r eglwys i weithio ar ei gorau. Yn union fel mae angen tiwnio, glanhau a gofalu am organ, mae angen i ninnau fel aelodau o'r eglwys dreulio amser yng nghwmni'n gilydd, er mwyn gallu dod i ddeall ein gilydd yn well, gweld pan fydd angen cynhaliaeth ar ein gilydd, ac yn sgil hynny, fedru ymateb i'r angen a welwn.

### Nefol wynt

Ond y tebygrwydd pwysicaf oll yw'r angen am y gwynt. Fydd yr organ orau yn y byd yn dda i ddim os nad yw'r fegin yn ei llenwi ag aer, ac yn yr un modd, mae angen i ninnau fel eglwys gael ein llenwi â

*parhad ar dudalen 8*

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 11 2024 RHIF 176

## Cofio Jürgen Moltmann (1926–2024)

Yng Nghaeredin yn 1965 roeddwn yn rhannu ystafell gydag Ulrich Kuder, myfyriwr ymchwil o Brifysgol Tübingen. Roedd yn ystafell braf ac eang, gyda ffenestri mawr yn edrych i lawr ar erddi hardd Princess Street. Yn hytrach na mynd i'r llyfrgell i ddilyn ei waith ymchwil, yr oedd Ulrich yn dewis treulio oriau bob dydd yn ein hystafell gan gau'r llenni'n dynn a gweithio dan olau lamp mewn un cornel fechan. Bu felly am ddau dymor. Honnai ei fod yn gweithio ac yn gweld yn well.

Daeth y cyfnod hwnnw yn ôl i'm meddwl wrth ddarllen am farwolaeth Jurgen Moltmann ar 3 Mehefin yn 98 oed. Moltmann, a anwyd ar gyrion Hamburg, oedd yr olaf o ddiwinyddion 'wedi Auschwitz'. Ond nid yw ei enw mor adnabyddus â Dietrich Bonhoeffer ac eraill, ac ni fu llawer o sylw i'w farwolaeth chwaith. Er na fu yn Auschwitz, bu Moltmann yng nghanol y tywyllwch a orchuddiodd yr Almaen ac Ewrop yn yr Ail Ryfel Byd.

Yn 16 oed yr oedd wedi cael ei alw, fel pawb o'i oed, i fyddin yr Almaen, gan ddechrau fel aelod o'r Gwasanaeth Tân yn cadw gwyliadwriaeth am awyrennau'r gelyn yn Hamburg. Fe welodd laddfa'r 40,000 yn y ddinas hardd honno a ddinistriwyd bron yn llwyr gan Awyrlu Prydain. Yn y fan honno – ac yntau o gartref digrefydd – y gofynnodd am y tro cyntaf i Dduw: 'Ble rwyt ti?'

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ac wedi bod am dair blynedd yn weinidog yn Bremen ysgrifennodd, 'Ni chofiaf amser i mi ymrwymo i Grist (*'a decision for Christ'* yw'r cyfieithiad Saesneg) ond fe wn i sicrwydd mai yn nhywyllwch fy enaid y gwelodd Crist fi.'



Moltmann yn weinidog ifanc yn Bremen

Bu am dair blynedd yn garcharor rhyfel yng ngwlad Belg, yr Alban a Lloegr, ac yn y cyfnod hwnnw cafodd brofiadau a newidiodd ei fywyd. Derbyniodd Feibl gan gaplan ac fe ddaeth am y tro cyntaf ar draws Salm 139 ('I ba le yr af oddi wrth dy Ysbryd?') ac Efengyl Marc ('Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?'). Yn y salm honno y darllenodd am Dduw'r golau a'r tywyllwch, ac yn Efengyl Marc fe gafodd ei gyflwyno i Grist meidrol a ddaeth yn 'frawd mawr iddo'. Ond efallai (a chofio teitl y sioe gerdd am Paul Robeson) y byddai 'Hwn yw fy mrawd' yn well disgrifiad o'r berthynas. Er iddo'i drwytho'i hun yn yr Efengylau eraill, parhaodd Efengyl Marc yn agos iawn i'w galon ac y mae hynny'n help i ddeall ei berthynas â Christ yn ei gyfrol 'Ffordd Iesu Grist'.

Yn ystod 1965 fe ddechreuodd Ulrich Kuder ddarllen cyfrol enwocaf Moltmann (a oedd erbyn hyn yn darlithio yn Bonn), sef 'Diwinyddiaeth Gobaith', oedd wedi ei chyhoeddi yn yr Almaen yn 1964. Fe glywais lawer am ei gyffro o ddarllen Moltmann y flwyddyn honno ac am obaith Ulrich y byddai'r Moltmann hwn yn dod yn Athro Diwinyddiaeth yn ei goleg ef yn Tübingen. Fe wireddwyd hynny; bu Moltmann yn Athro o 1967 hyd 1994 yn Tübingen, ond fe gafodd Ulrich ei hun y fraint o ddod hefyd yn ddarlithydd yn adran ei arwr!

Fefyddai'n braf petawn yn medru ysgrifennu erthygl goffa i Jürgen Moltmann, ond nid oes gennyf y cymwysterau i wneud hynny. Fe ysgrifennodd naw prif gyfrol ac o leiaf 35 o gyfrolau eraill, heb sôn am erthyglau a darlithoedd.

Rhaid nodi'r tair cyfrol a'i gwnaeth yn ddiwinydd byd-eang, sef 'Diwinyddiaeth Gobaith' (1964), 'Y Duw Croeshoeliedig' (1972) a'r 'Eglwys yng ngrym yr Ysbryd Glân' (1975). Nid oedd darllen y cyfrolau hyn yn waith hawdd, ac ni allwn deimlo mor gyffrous ag Ulrich ynglŷn â Moltmann! Ond deuthum i sylweddoli na fu'r cyfrolau hyn yn hawdd i'w hysgrifennu chwaith oherwydd mai 'ffwrn dân' o gyfrolau ac nid gwaith academydd ydynt. Maent yn mynd i galon argyfwng ein dynoliaeth, ein crefydda a'n gwareiddiad – argyfwng yr ydym yn ôl ynddo eto yn nhywyllwch 2024.

Cafodd Moltmann wahoddiad i ddarlithio mewn cynhadledd ym Mhrifysgol Duke yn America ar sail yr ymateb a fu i 'Diwinyddiaeth Gobaith'. Yr oedd hynny yn 1968 ac yr oedd tudalen flaen y *New York Times* wedi cyhoeddi cyn y gynhadledd: 'The theology of yesterday's "God is Dead" is now "the Theology of Hope".' Yr oedd y byd yn dyheu am neges o obaith ar ôl cyflafan y rhyfel a'i ganlyniadau. Ond ar ganol y gynhadledd cyhoeddwyd bod Martin Luther King wedi ei lofruddio. Bu ymateb treisgar a gwrthdaro ar strydoedd dinasoedd America a daeth dinas Durham fel pob dinas dan waharddiad nos (*curfew*). Bu'n rhaid dod â'r gynhadledd i ben.

Ond, yn ôl Moltmann, doedd y gair 'gobaith' ddim rywsut yn addas i wlad oedd wedi byw gan gredu mai gwlad gwireddu breuddwydion a llawn gobeithion ydoedd i'r Americanwyr gwyn. Ond nid dyna'r gwir am America i bawb. Ystyriai Moltmann fod angen i'r gwyn hefyd, fel y du, wybod am y Duw a ddioddefodd ac am y Crist yn ei atgyfodiad sy'n obaith i'r byd gan ddwyn rhyddid, i'r du a'r gwyn. I'r caethweision a'u teuluoedd roedd y 'ddiwinyddiaeth rhyddhad' hon wedi codi MLK i fod yn broffwyd ei bobl. Yn ôl Moltmann ei hun, yn y cyfnod hwnnw y dechreuodd ysgrifennu 'Y Duw Croeshoeliedig'.

O'i holl gyfraniadau, fel diwinydd 'wedi Auschwitz' y cofir am Moltmann. Wedi Auschwitz pwysleisiodd fod gweddïau'r Iddew a gweddïau'r Cristion ('Sh'ma Israel' ac 'Ein Tad') wedi'u gweddïo yn un weddi yn Auschwitz. Fe gredai yntau, Jürgen Moltmann, 'nad oes Duw y gallaf ei addoli a'm cefn wedi ei droi tuag at Auschwitz'. Am y tro cyntaf ers y rhwyg fawr rhwng yr Iddew a'r Cristion (a chanlyniad erchyll y rhwyg honno), maent yn addoli yr un Duw yn Auschwitz.

Daeth Moltmann i gredu mai'r berthynas mewn addoli yw'r berthynas ddyfnaf rhwng dyn a Duw. Dyma addoli a diwinyddiaeth y ffwrn dân: 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?' Mae'n cyfeirio yn rhywle 'at y briw agored yng nghalon Duw' a ddaeth yn obaith yn atgyfodiad Iesu. Mae'r atgyfodiad yn cyfeirio'r byd at Deyrnas Dduw heddiw ac yfory. Dyma'r deyrnas sy'n iacháu ac yn trawsnewid y byd. Oherwydd hyn, yr oedd diwinyddiaeth Moltmann yn 'ddiwinyddiaeth ecwmenaidd' ac yn ymwneud â phob agwedd o fywyd y byd. *A broad place* yw teitl Saesneg ei hunangofiant.

Nid yw Moltmann yn gyfforddus gyda'r uniongred na'r rhyddfrydol eu bryd. Mae ei dystiolaeth yn tarddu o le dyfnach na hynny, lle mae Duw ei hun yn dioddef a lle mae ei Fab yn olau o obaith.

Yn 1965, pan oeddwn yn gofyn i Ulrich Kuder am ganiatâd i agor ychydig ar y llenni i gael golau dydd i'n hystafell, nid oeddwn yn sylweddoli y gallai'r weithred honno erbyn hyn i mi fod yn symbolaidd o waith a chyfraniad mawr Jürgen Moltmann. Mae profiad Cristnogion ac Iddewon yn ystod yr Holocost ac yn dilyn yr Holocost yn dystiolaeth na allwn ei gwerthfawrogi'n llawn nac yn iawn. Yn araf mae'r golau wedi treiddio i weddill yr 20fed a'r 21ain ganrif – diolch i Moltmann a'i oes o dystiolaeth i obaith yr Efengyl. Nid oes reswm i ni fod yn ddim ond yn bobl gobaith.

*Pryderi Llwyd Jones*

# Tîm golygyddol newydd i'r cylchgrawn *Cristion*

Mae Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn, Eurfyl Lewis, Llanglydwen, a Sian Elin Thomas, Crymych, newydd ddechrau ar y gwaith o gydolygu cylchgrawn *Cristion* a bydd eu rhifyn cyntaf, sef rhifyn Gorffennaf / Awst 2024, ar werth yn fuan. Byddant yn cydolygu'r cylchgrawn am y tair blynedd nesaf, ac mae'r tri ohonynt yn edrych ymlaen yn eiddgar at drefnu ystod eang o erthyglau amrywiol a fydd, gobeithio, yn apelio at bawb. Y bwriad yw gwahodd pobol o bob oed i gyfrannu erthyglau, gan ddangos a phwysleisio, er ein bod yn byw mewn cyfnod o drai, yn grefyddol ac yn ysbrydol, fod y goleuni'n para i lewyrchu drwy'r tywyllwch.

Y ffordd hawsaf yw tanysgrifio i dderbyn copi, ond y ffordd rataf, yn enwedig os ydych yn byw gerllaw siop lyfrau Cymraeg, yw prynu copi yn y fan honno. Mae manylion llawn am y cynnig arbennig i unigolion ac eglwysi ar gael o wefan www.cristion.net, a hyderwn y byddwch yn mynd ati i danysgrifio neu brynu'r cylchgrawn yn fuan. Diolch o galon ymlaen llaw i chi i gyd am eich cefnogaeth, a gobeithio cewch flas ar yr arlwy.

### Gair gan y golygyddion ar ddechrau eu tymor newydd

Mae'r tri ohonon ni'n dod o gefndiroedd a phrofiadau gwahanol, ac mae'n siŵr y bydd hyn o fantais wrth fynd ati â'r gwaith. A jiw, ni'n gyffrous i ddechrau!

Does dim amheuaeth nad oes gyda ni sgidiau mawr i'w llenwi, a dyma gyfle i ddiolch i Carwyn, Dylan a Nerys am eu gwaith arbennig dros y tair blynedd diwethaf. A diolch hefyd am eu cyngor gwerthfawr wrth i ni fwrw mlaen i baratoi ein rhifyn cyntaf.

Ond, wrth ddiolch am yr holl waith sydd wedi cael ei wneud, mae rhaid i ni edrych ymlaen at y dyfodol nawr, i'r cyfnod nesaf yma yn hanes *Cristion*. Ry'n ni'n credu'n gryf nad oes angen newid er mwyn newid chwaith. Bydd rhai pethau yn aros, fel 'Gair o'r Galon' a 'Fy Ngweinidogaeth' – mae'r erthyglau hyn o bob rhan o Gymru wedi bod mor ddiddorol ac amrywiol.

Ond, bydd ambell beth bach newydd. Yng ngeiriau emyn enwog iawn Lewis Valentine 'Dros Gymru'n Gwlad', clywn y geiriau:



O deued dydd pan fo awelon Duw
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw.

Mae'r tri ohonon ni'n teimlo'n angerddol ein bod am ganolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru. Ry'n ni eisiau dangos bod awelon Duw, er efallai nad ydyn ni bob amser yn eu teimlo, yn dal i chwythu dros ein gwlad. Mae gennym hefyd arwyddair 'answyddogol', sef 'ffydd bob dydd', sy'n adlewyrchu'r ffaith ein bod yn awyddus i ddangos bod ein heglwysi yn rhan o'r gymdeithas bob dydd ac nid ar y Sul yn unig. A braf yw cael y cyfle, fel rhan o'r tîm golygyddol, i ddod â'r straeon hyn am bobl weithgar Cymru i dudalennau *Cristion*. Ry'n ni'n clywed digon am y pethau negyddol sy'n ymwneud â'n heglwysi a Christnogaeth yn gyffredinol, ac mae'n rhaid bod yn realistig a derbyn bod pethau'n hynod anodd i lawer. Ond credwn a gobeithiwn y bydd dangos y pethau positif, y pethau rhyfeddol sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn enw Iesu Grist, yn rhywbeth ardderchog ac yn hwb i eraill.

Wrth fynd ati i geisio gwneud hyn, ry'n ni wedi rhyfeddu a llawenhau yn barod at gymaint sy'n cael ei wneud.

Felly, ein bwriad trwy ychwanegu erthyglau fel 'Crwydro' ac 'Un Cam Bach' yw adlewyrchu'r pethau da sy'n digwydd o ddydd i ddydd. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn ein hysgolion Sul ac mewn eglwysi o bob enwad. Diolch i bawb sydd wedi cytuno i gyfrannu at y rhifyn yma – rydyn ni'n hynod o falch ohono!

Gobeithio y byddwch yn mwynhau beth sydd gyda ni ar eich cyfer. Bendith Duw arnoch i gyd.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau**
**Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr ofalaeth yn ardal Bangor**

**Swydd Llawn neu Ran amser**

Mae Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd i'r ofalaeth i ddatblygu gwaith plant ac ieuenctid yn eglwysi'r ofalaeth ac i gynorthwyo yn y gwaith o ymestyn y dystiolaeth Gristnogol o fewn y cymunedau.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC neu uwch yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Yn gweithio o swyddfa Berea Newydd, mae'r swydd hon wedi ei lleoli yn ardal Bangor ac yn cynnwys y Felinheli ac Abergwyngregyn.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r Iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru 02920627465

**Dyddiad cau : 12 Gorffennaf 2024, 4 o'r gloch.**

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Henaduriaeth Conwy Dyfrdwy**
**Gweithiwr Ymestyn**
**(ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles)**

Mae Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy yn dymuno penodi Gweithiwr Ymestyn (ar gyfer Gofalaeth Thomas Charles, Bala a Phenllyn) i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** £31,214–£33,051, pwynt 31–35 pro rata, graddfa gyflog EBC neu'n uwch, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Byddwch yn gweithio o Eglwys Thomas Charles, y Bala; fodd bynnag, efallai y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.


Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627465

**Dyddiad cau: 12ed Gorffennaf 2024, 4pm**

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




### Pennod 32
### Caplaniaeth ar faes Sioe Frenhinol Cymru

**Gweddi**

Cofiwn heddiw, Arglwydd, am amaethwyr ein gwlad a'n byd. Cymorth ni i werthfawrogi eu hamgylchiadau wrth i ni sylweddoli bod y Beibl yn aml yn dy gyffelybu i fugail da. Amen.

**Darlleniad: Ioan 10:1–21**

**Cyflwyniad**

Yn y Beibl ceir llawer o gyfeiriadau at fugeiliaid a'r bywyd amaethyddol, ac er bod sôn am fustych nid oes llawer o gyfeiriadau at fwyta cig eidion na godro gwartheg. Mae'r diwydiant pysgota yn derbyn sylw a cheir cyfeiriadaeth at dyfu ŷd a bwyta bara. Datblygodd amaethyddiaeth wrth i'r Hebrëwyr ymsefydlu ac i Jwda ddatblygu fel gwladwriaeth.

Datblygodd y ddelwedd o fugeiliaeth yr eglwys i gyflwyno gofal aelodau dros ei gilydd ac yn 1 Pedr 5 ceir yr anogaeth i 'fugeilio praidd Duw'. Cafodd Esgob Rhufain ffon fugail i'w chario fel delwedd o'r swydd, ac mae'n ffasiynol i sôn am offeiriaid a gweinidogion eglwysi fel bugeiliaid yr eglwys. Beth yw disgwyliadau aelodaeth eglwys o fugeiliaid yr eglwys, ac i ba raddau mae'r eglwys yn dangos gofal dros ei gilydd, a thros y gymdeithas ehangach?

**Myfyrdod**

Un o nodweddion brawychus ein cyfnod yw clywed am nifer cynyddol o ffermwyr yn dewis hunanladdiad yn wyneb heriau'r bywyd amaethyddol. Bu'r gofid hwn yn bryder i'r Undebau Amaethyddol yn gymaint ag i bob corff cysylltiol arall. Nodir bod mwy nag un amaethwr yr wythnos yn cyflawni hunanladdiad yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwaith yn medru bod yn unig gyda llawer o ansicrwydd ariannol yn wyneb y cyfnewidiadau sydd i'r diwydiant. Mae prisiau tir, anifeiliaid a pheiriannau amaethyddol mor uchel fel bod y fferm deuluol a fu'n llwyddiannus yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi ildio'i lle i raddau helaeth i unedau mwy, gyda'r ychydig ffermwyr sydd ar ôl yn y diwydiant yn fusnesau enfawr.

Ynghanol y digwyddiadau hyn, mae'r eglwys yn chwilio am ei chyfle i ddangos cefnogaeth a dealltwriaeth ymarferol i amaethwyr yn unigol ac i'r diwydiant yn gyffredinol. Daeth sawl cyfundrefn enwadol ynghyd i gefnogi caplaniaeth yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, ac mae 15 caplan yn cydweithio i gynnal y gwasanaeth. Yn ystod yr wythnos bydd saith caplan ar y maes, gyda dau yn eu pabell a phump allan ar y maes. Cynhelir dwy egwyl ddefosiynol bob dydd, gan gynnig cyfle i amaethwyr sydd mewn sefyllfa fregus i drafod eu hamgylchiadau. Ceir presenoldeb caplaniaid ar faes y sioe mewn digwyddiadau eraill gydol y flwyddyn a chynigir gweinidogaeth hefyd yn y siroedd.

Anogir eglwysi i gynnal y diwydiant hwn yn eu gweddïau yn gyson, ac i'r eglwysi sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig fod yn effro i ofidiau amaethyddiaeth yn eu hardaloedd. Enghraifft o gorff sy'n estyn allan i fugeilio'r ffermwyr yw Tir Dewi, ac mae chwilio am ffyrdd o gefnogi mudiadau fel hyn yn ganolog i weinidogaeth eglwysi yng nghefn gwlad Cymru yn greiddiol. Gall pob eglwys rannu yn y fraint o weddïo dros y gymuned amaethyddol yn gyson.

**Gweddi**

Duw y Bugail da, cyflwynwn i ti amaethwyr ein gwlad, gan ddyheu am weld y bydd eu diwydiant yn llwyddo i ddwyn tir gwastad ac economi gyson. Diolch am eu gwaith yn cynhyrchu bwyd i drigolion ein broydd ac am ddangos gofal dros dirwedd ein gwlad. Amen.

**Cwestiynau i'w hystyried**

1 Amcan y ddameg oedd egluro natur Duw ac mae'n adlais o Salm 23. Beth fyddai'n ddieithr i'r Sadwceaid pybyr yn y portread hwn o Dduw?
2 Yn 1 Pedr 5, gelwir ar yr eglwys i fugeilio praidd Duw. Sut byddwn yn uniaethu hyn â 'gweinidogaeth yr holl saint'?
3 A fyddwch yn synhwyro Iesu'r bugail da yn eich bugeilio chi?
4 Mae baich yr economi amaethyddol yn disgyn ar ysgwyddau unigolion, sy'n arswydo mewn ofn ac mewn dyledion eithriadol fawr yn aml. A welwch werth mewn gwahodd cynrychiolydd o gymdeithas Tir Dewi neu swyddog lleol o undeb amaethyddol i egluro natur eu pryderon i'ch eglwys, eich cwrdd chwarter neu eich henaduriaeth/cymanfa?

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 14 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carys Tudor Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 14 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Esyllt Maelor, Morfa Nefyn

## Ymunwch â'r Daith gyda'r Iesu ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Anabledd

Mae elusen anabledd Through the Roof yn gwahodd eglwysi i ddathlu Wythnos Ymwybyddiaeth Anabledd drwy gynnwys pobl anabl leol a chynnal gwasanaeth ddydd Sul, 22 Medi, neu ddiwrnod o'u dewis. Mae pecyn adnoddau eglwysig (Saesneg yn unig), rhad ac am ddim, ar gael yma ar y thema 'Taith gyda'r Iesu', yn cynnwys 'Stori Andrew' am y ddamwain a newidiodd ei fywyd.

# GOHEBIAETH – Dyfodol *Y Tyst*

Cafwyd peth ymateb i'r erthygl oedd yn trafod dyfodol *Y Tyst* yn rhifyn 20 Mehefin.

Dyma sylwadau a gafwyd gan y Parch. Glenys Jones, Pwllheli.

1. Edrychaf ymlaen am weld *Y Tyst* yn cyrraedd bob wythnos. Mae'n rhan bwysig o fy mywyd fel gweinidog.
2. *Y Tyst* sydd yn cadw fy mys ar y *pulse*. Mae'n rhoi gwybodaeth:
   i. Am yr hyn sy'n digwydd mewn eglwysi
   ii. Yn cadw mewn cysylltiad â'r Undeb a'r Cyngor.
   iii. Yn rhoi cip ar sefyllfa'r byd.
3. Rwy'n gymysg fy meddwl os yw'r *Tyst* yn werth y gost i'r Undeb. Medrwn ei ddarllen ar y we pe bai rhaid.
4. Rwy'n **drist iawn** wrth feddwl y gallasai'r *Tyst* ddod i ben, ond yn fodlon ei dderbyn fel rhan o *Cennad* pe bai rhaid.

**Awgrym** – Beth am ei gyhoeddi unwaith y mis?







Dyma ymateb arall anfonwyd atom yn sgil yr erthygl ar 'Trafod dyfodol *Y Tyst*' yn rhifyn 20fed Mehefin:

Annwyl oll,

Mae'r papur newydd wythnosol fel hwn neu fwletin i'r wasg ar gyfer ein heglwysi yn bwysig iawn i mi fel gweinidog yr efengyl oherwydd mae'n golygu fy mod yn gallu dathlu llwyddiant fy eglwys gydag eglwysi annibynnol eraill ac y mae hyn yn caniatáu inni gyfrannu at weledigaeth a nod ein heglwysi.

Undeb o eglwysi Annibynnol ydym sydd i ysbrydoli ac ysgogi ein gilydd yn ein gwaith dros Iesu Grist. Heb y papur hwn, rwy'n pryderu sut y byddem yn gwneud hyn yn effeithiol fel Undeb o'r hyn sydd bellach yn 370 o eglwysi? Credaf y byddai'n gymaint o drueni dod â'n bwletin unigryw gwych i ben ar ôl dros 150 o flynyddoedd.

Mae'n rhaid imi fod yn onest â chi, ond pe gofynnid inni uno â phapur newydd cydenwadol arall, ni fyddwn yn awyddus iawn i anfon unrhyw wybodaeth i mewn gan fy eglwys. Fel eglwys rydym yn talu ein haelodaeth i'r Undeb ac fel rhan o'r aelodaeth mae gennym y fraint o allu cyfrannu at ein papur. Nid yn unig hyn, ond mae'n rhaid i ni gymryd i ystyriaeth y gweithwyr ffyddlon sy'n ei gynhyrchu.

Fodd bynnag, credaf fod lle i newid. Pryd oedd y tro diwethaf inni wneud newid radical i'n papur newydd? Yn ein Hundeb, mae gennym hefyd eglwysi Saesneg eu hiaith a dwi wir yn credu y dylem feddwl am gyrraedd yr eglwysi hyn hefyd gyda'n bwletin/papur wythnosol.




Os mai arian yw'r mater, rwy'n awgrymu bod yr Undeb yn edrych eto ar eu cyfrif banc a'u datganiadau! Mae'r Undeb yn nofio mewn arian a phwrpas yr undeb yw cefnogi'r eglwysi felly yn fy marn i, nid oes unrhyw reswm o gwbl i ddod â'r papur hwn i ben. Pwrpas yr Undeb yw gwasanaethu'r eglwys a thrwy ddod â'r papur newydd hwn i ben mi fydd yr undeb yn METHU o ran gwasanaethu'r eglwysi ac mae hyn yn mynd yn groes i gyfansoddiad yr Undeb.

Gyda chwymp yn nifer yr eglwysi sydd bellach yn rhan o'r Undeb a chydag eglwysi yn ddiweddar wedi penderfynu dod yn aelodau o undebau eraill credaf y bydd dod â'r papur hwn i ben hefyd yn gweld yr Undeb yn mynd yn wannach nid yn gryfach. Mewn 50 mlynedd rydym wedi syrthio o dros 800 o eglwysi i tua 350 – nid oes diben i ddod â'r *Tyst* i ben.

Yn lle hynny, mae angen inni weld sut y gallwn nid yn unig ei achub ond hefyd ei wella. Credaf y gallem edrych ar ddatblygu'r cynnwys ar-lein a hefyd adran cyfrwng Saesneg unwaith y mis ar gyfer yr eglwysi cyfrwng Saesneg.

Tybed pryd oedd y tro diwethaf i'r Undeb ysgrifennu at yr eglwysi i ddweud wrthynt eu bod yn gallu cyfrannu at y papur? Yn bersonol, rwy'n mwynhau darllen y papur am ddim ar-lein ac efallai bod hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried? Beth am godi pris *Y Tyst* i £1.00?

Os gwelwch yn dda, er mwyn eich eglwysi peidiwch â dod â'r papur hwn i ben ond yn hytrach edrychwch ar ei ddatblygu ymhellach er mwyn dod â chostau i lawr os mai dyna'ch pryder mewn gwirionedd. Cofiwch pan fydd Crist yn dychwelyd bydd arian yn dda i ddim ac mae'n dweud wrthym nad yw'n dda i garu arian: 'Lle mae ein trysor, bydd ein calon hefyd.'

**Y Parchg Rhys Locke**

## Elim, Ffynnon-ddrain, Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Manylion ysgrifennydd newydd Elim yw:

Brian Walters
Clunmelyn,
Ffynnon-ddrain
Caerfyrddin
SA33 6EE

E-bost: brianwalters2020@outlook.com

Ffôn: (01267) 237842


# Golygyddol

## Ansefydlogrwydd

Un o nodweddion amlwg y blynyddoedd diweddar yn hanes dynoliaeth yw ansefydlogrwydd, ac mae hynny'n mynd i barhau i'r dyfodol. Rydym yng ngwledydd Prydain yn byw yng nghysgod haint Covid a'i sgil effeithiau a'r camgymeriad dybryd hwnnw a elwid Brexit sydd wedi niweidio cymaint ar ein perthynas gyda gwledydd eraill yn ogystal ag andwyo'r economi. Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn rhoi pobl ar binnau ac yn gwneud iddynt deimlo yn eithriadol o ansicr.

### Newid hinsawdd

Yn fyd-eang gwelwn effeithiau brawychus newid hinsawdd. Wrth i mi ysgrifennu'r pwt hwnt y mae corwynt Beryl yn chwyrlio ei ffordd drwy'r Caribî gan ddinistrio bywydau, bywoliaethau ac adeiladau. Ar y newyddion gwelir llifogydd difäol yn rhai o wledydd Ewrop, Tsieina a Bangladesh. Dywed arbenigwyr wrthym os na fydd dynoliaeth yn dod at ei choed yn ddiymdroi gyda llygredd ac allyriadau niweidiol bod llawer gwaeth ar y ffordd.



*Corwynt Beryl (Hawlfraint: NASA)*

### Rhyfel

Gwelir rhyfeloedd creulon yn digwydd heddiw yn Wcráin a Llain Gaza a'r diniwed a'r plant yn dioddef oherwydd trachwant treisgar eu cyd-ddynion. Ac mewn llawer gwlad arall y mae'r sefyllfa yn fregus ac ansefydlog.

### Asgell Dde

Yn yr un modd ym myd gwleidyddiaeth gwelir yr asgell dde anoddefgar yn dod yn fwy a mwy amlwg yn yr Unol Daleithiau, Ewrop ac yma ym Mhrydain. O ganlyniad i hynny gwelir rhagfarnau atgas, hiliaeth, materoldeb ac anoddefgarwch ymosodol yn dod yn rhan o'n cymdeithas. Mae'r pum mlynedd ddiwethaf o lywodraeth Doriaidd wedi bod yn bantomeim annosbarthus. Gwelid nifer yn defnyddio eu safle o awdurdod er mwyn ymelwa trwy gam-ddefnyddio arian trethdalwyr. Roeddwn yn cael yr argraff mai gêm oedd gwleidyddiaeth i'r giwed freintiedig hon gan nad oedd eu penderfyniadau mewn gwirionedd yn effeithio arnynt hwy na'u teuluoedd. Cywilydd arnynt. Amser a ddengys beth fydd dylanwad llywodraeth Lafur yn San Steffan yn sgil yr etholiad cyffredinol yr wythnos ddiwethaf. Pa wahaniaeth fydd hynny'n ei wneud yma yng Nghymru tybed? Oherwydd yma hefyd y mae ansefydlogrwydd sy'n esgor ar dlodi plant, problemau yn y gwasanaeth iechyd a gofal, a digartrefedd.

### Cymru

Ac i droi at faterion Cristnogol yn ein plith ni, y mae'r sefyllfa eto yn ansefydlog iawn. Y naill wythnos ar ôl y llall fe glywn am eglwysi yn dirwyn i ben a chynulleidfaoedd yn anobeithio. Eraill drachefn yn sôn am y diffyg plant a theuluoedd a'i bod yn dalcen caled iawn i gynnal yr achos. Nid gormodedd dweud ein bod mewn argyfwng a'n bod yn wynebu brwydr ysbrydol. Yr wythnos hon bydd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn cael eu cynnal yn Nhrefforest a sylweddolwn nad swyddogaeth rwydd yw un yr Undeb ar hyn o bryd. Ond diolchwn am y gwaith a gyflawnir ganddynt a gweddïwn am ysbrydoliaeth a gweledigaeth i'r dyfodol.

### Gobaith sicr

Ond er y galarnadu cwynfanllyd yn yr erthygl hon rhaid cofio trwy'r cwbl fod gennym yn ein meddiant fel pobl Iesu Grist obaith sicr a di-syfl sy'n cael ei roi i ni gan Dduw sefydlog, tragwyddol ac anorchfygol. Y mae newyddion da Cristnogaeth yn ei dro yn rhoi'r arfau a'r weledigaeth i wrthweithio'r holl anawsterau y cyfeiriais atynt uchod sef, newid hinsawdd, rhyfel, gwleidyddiaeth ond yn bwysicaf sefyllfa ysbrydol pobl a'u perthynas gyda Duw. Oherwydd y mae credu a dilyn Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd yn newid pobl. Os yw unigolion yn newid y mae cymuned yn gallu newid ac os yw cymuned yn gallu newid gall cenedl newid i fod yn fan lle mae teyrnas Dduw yn cael ei byw a'i gweithredu.

A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef (Rhufeiniaid 12:2).

**Alun Tudur**

## Ewch, da chi i Geredigion. Peidiwch oedi'n hwy ... rhag ofn!

Pererindod Capel yr Allt-wen a Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd i ddod i adnabod Teulu'r Cilie, Cranogwen a Moelona.

'Bu gan y gorllewin ei apêl arbennig i'r ysbryd ifanc er y machlud cyntaf un. Denwyd yr anturus erioed gan y fro led chwedlonol hon ar y ffin rhwng realiti a thiroedd y dychymyg. Bro'r cyrion ydyw o lonydd troellog cul nad ŷnt yn rhan o rwydwaith sarnau'r Rhufeiniaid na thraffyrdd llydain Saeson yr oes sydd ohoni. Ond eto mae'r baradwys gyfrin hon o fewn cyrraedd y sawl sy'n barod i chwilio amdani.' Dyma eiriau cychwynnol y Prifardd Idris Reynolds yn *Tua'r Gorllewin, Cofiant T. Llew Jones* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2011) a chawsom ddiwrnod braf heulog i deithio i Geredigion ar Sul, 23 Mehefin.

Roedd y bws yn llawn pererinion brwd, yn awyddus a disgwylgar i ddarganfod mannau diddorol yng nghornel bach o Gymru nad oedd yn gyfarwydd i bobl cymoedd Nedd a Thawe. Nid felly, ein tywysydd a'n gweinidog y Parchg Gareth Morgan Jones; dyma ei filltir sgwâr yntau a chawsom stôr o wybodaeth ar hyd y daith.

On'd ydym yn freintiedig? On'd oes gennym wlad brydferth, ac roedd ei thiroedd ffrwythlon a'i chefn gwlad ar ei orau – yr amaethwr yn cynaeafu a'r coed a'r perthi'n llawn tyfiant. Yn ogystal, mae iddi hanes cyfoethog ac ar hyd y siwrne clywsom am gynnyrch crefyddol a diwylliannol ein gwlad fach ni.

Ar ôl pryd o fwyd blasus yn Ffostrasol cawsom groeso twymgalon yng Nghapel y Wig a chwmni Jon Meirion a Gareth Jones ac aelodau'r eglwys honno. Cael hanes y fro, yn arbennig y Cilie a'r teulu diwylliedig hynny a gweld eu beddau, ynghyd â rhai T. Llew a Tydfor 'yn erw'r Hiraeth'.

Sgwâr adail cysegredig – a godwyd
Gan gedyrn deheuig
Yn falchder coed a cherrig –
Pa le fel Capel y Wig?

### Teulu'r Cilie neu Bois y Cilie

Teulu o feirdd a fagwyd ar fferm y Cilie, ger Llangrannog. Yr oedd y tad,

*parhad ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Ewch, da chi i Geredigion – *parhad*



*Pererindotwyr yr Allt-wen a Chastell-nedd o flaen porth Capel y Wig*

Jeremiah Jones (1855–1902), a fu'n of cyn troi'n ffermwr, yn fardd gwlad boblogaidd ac yn yr efail ym Mlaencelyn y ganwyd ei wyth plentyn cyntaf iddo ef a'i wraig Mary, a'r pedwar arall yn y Cilie. O'r saith brawd yr oedd chwech yn ymryson barddoni â'i gilydd er yn gynnar. Parhaodd dylanwad llenyddol eithriadol y Cilie hyd at yr ail a'r drydedd genhedlaeth, a Jon Meirion a Dafydd Iwan yn eu plith.

Wedi dishgled a theisen yn y festri ymlwybro hyd lonydd cul y fro i Langrannog a syfrdanu ar gerflun lluniaidd Cranogwen a'r blodau hardd a'u hamgylchynai.

### Cranogwen (Sarah Jane Rees, 1839–1916)

Bardd a golygydd o Langrannog ac ysgolfeistres wrth ei galwedigaeth. Bu'n olygydd *Y Frythones* (1878–91), cylchgrawn ar gyfer merched, a bu'n gyfrifol am sefydlu Undeb Dirwestol Merched y De. Cyhoeddwyd casgliad o'i barddoniaeth yn y gyfrol *Caniadau Cranogwen* (1870).

Merch arall a gyfrannodd i'n diwylliant, yn enwedig ym maes llenyddiaeth plant oedd Moelona ac wrth y garreg coffa ar gartws ei chartref, Moylon, Rhydlewis y clywyd am ei chyfraniad clodwiw. Ymysg ei chyfrolau niferus mae *Teulu Bach Nantoer* (1913). Diolch i Ann Williams, un o deulu Moelona am yr hanes. Diddorol oedd clywed bod Moelona a'i phriod Tywi Jones wedi treulio cyfnod yn y Glais, pan oedd Tywi'n weinidog ym Mheniel.

### Moelona (Elizabeth Mary Jones, née Owen, 1878–1953)

Nofelydd a aned yn Rhydlewis. Athrawes wrth ei galwedigaeth ac awdur dros ddeg ar hugain o lyfrau i blant ac oedolion. Ei bro enedigol yw cefndir llawer o'i gwaith, gan gynnwys ei nofel enwocaf, *Teulu Bach Nantoer* (1913). Yr oedd yn Gymraes wlatgar ac yn flaengar ei hagwedd tuag at safle'r ferch yn y gymdeithas. Ceir safiad pendant ar iawnderau merched ganddi yn *Cwrs y Lili* (1927) ac yn Alys Morgan yn *Dwy Ramant o'r De* (1911). Er, efallai i'w harddull golli llawer o'i hapêl i'r darllenydd cyfoes, bu ei gweithiau'n boblogaidd dros ben a bu darllen eang arnynt yn eu dydd.



*Yng ngardd goffa Cranogwen*

Cyn dychwelyd arhosom wrth gapel Hawen, Rhydlewis a rhyfeddu ar ei symlrwydd hardd – dyma'r eglwys y magwyd ein gweinidog, y Parchg Gareth Morgan Jones ac ymhyfrydai ef ynddi.

Diolch i Delma James am yr holl waith trefnu ac i'r gweinidog am ei arweiniad a'i sylwadau diddorol ar hyd y daith.

**Gareth Richards**

# Y ffrwd fach – parhad

gwynt Duw, yr Ysbryd Glân, os ydym am gael effaith yn y byd, a dangos cariad Duw. Yn union fel y disgyblion cyntaf, oedd yn ceisio canfod eu rôl wedi i Iesu ddychwelyd at ei Dad, mae'r dasg sy'n ein hwynebu ninnau yn llawer mwy nag unrhyw beth y gallwn ni ei gyflawni yn ein nerth ein hunain, ond os cawn ein llenwi ag Ysbryd Duw, gallwn gael ein gweddnewid a gweld bod Duw, yng ngeiriau'r llythyr at yr Effesiaid, yn 'gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu!'

Ac fel mor aml, mae yna gwpled o emyn yn dod i'r meddwl, yn crynhoi'r ffaith bod Duw yn gallu codi popeth a wnawn i lefel uwch na'n cyfyngiadau meidrol ni:

> Dy Ysbryd sydd yn ennyn cynhesol, nefol dân;
> Dy Ysbryd pur yn unig sydd yn melysu nghân.
>
> (Dafydd William)

**Dr Fiona Gannon**
(allan o *Bwrlwm*, cylchgrawn Capel y Nant, Clydach, Rhif 166, Mehefin 2024)

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*